***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. 541

# The Official Controls (Miscellaneous Amendments) Regulations 2024

## PART 5

## Consequential amendments to the Trade in Animals and Related Products legislation applying in relation to the territories of Great Britain

### Consequential amendments to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011 (Welsh language text)

**15.**—(1) The Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011 (Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011)(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1), at the appropriate place insert—

"ystyr "arolygydd pysgod swyddogol" ("*official fish inspector*") yw person sydd wedi ei hyfforddi'n addas a benodir yn unol â rheoliad 12;

ystyr "milfeddyg swyddogol" ("*official veterinary surgeon*") yw milfeddyg sydd wedi ei hyfforddi'n addas a benodir yn unol â rheoliad 12;.".

(3) In Schedule 3(**2**)—

(a) at the end insert—

"**Achos 8: nwyddau risg isel sydd wedi eu hesemptio rhag gwiriadau rheolaidd o dan Erthygl 48(h) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol**

**9.** Nwyddau risg isel sydd wedi eu hesemptio rhag gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol rheolaidd yn unol ag amodau a bennir gan reoliad 10 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygiadau Amrywiol) 2024.".

(4) In Schedule 5(**3**)—

(a) for paragraph 4 substitute—

"**4.**—(1) O 30 Ebrill 2024 ymlaen, mae rheoliad 13 yn gymwys mewn perthynas â Chymru—

(a) fel pe bai'r testun presennol wedi ei ailrifo'n baragraff (1); a

(b) ym mharagraff (1) (fel y mae wedi ei ailrifo) fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle'r geiriau "ac eithrio drwy arolygfa ffin sydd wedi ei ddynodi ar gyfer yr anifail neu'r cynnyrch hwnnw"—

(**1**) S.I. 2011/2379 (W. 252), amended by S.I. 2018/1612 (W. 249), 2020/44 (W. 5), 177 (W. 38), 1612 (W. 337) and 1639 (W. 344), 2021/1094 (W. 249) and 1480 (W. 382), 2022/1348 (W. 271), 2023/1332 (W. 240) and 2024/20.
(**2**) Schedule 3 was amended by S.I. 2020/44 and 1612 and 2022/1348.
(**3**) Schedule 5 was inserted by S.I. 2020/44, 1612, and amended by S.I. 2021/1480, 1094 and 2024/20.

"ac eithrio—

(a) yn unol â pharagraffau (2) neu (3); neu

(b) mewn perthynas ag unrhyw gynnyrch, ar ôl i safle rheolaethau'r ffin gael ei ddynodi ar gyfer y cynnyrch o dan sylw, drwy'r safle rheolaethau'r ffin hwnnw.";

(c) fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (1)—

"(2) Caiff anifeiliaid byw sy'n dod o drydedd wlad berthnasol barhau i ddod i Gymru drwy unrhyw bwynt mynediad.

(3) Caiff nwyddau perthnasol (ac eithrio anifeiliaid byw) sy'n dod o Weriniaeth Iwerddon, sydd—

(a) yn dod o fewn y disgrifiad ym mharagraff 1(a) o Atodlen 5, neu

(b) yn dod o fewn y disgrifiad ym mharagraff 1(b) o Atodlen 5 ac sydd wedi eu clirio i'w cylchredeg yn rhydd o dan ddeddfwriaeth tollau'r Undeb,

ddod i Gymru drwy unrhyw bwynt mynediad.".";

(b) in paragraph 5—

(i) for sub-paragraph (1) substitute—

"(1) O 30 Ebrill 2024 ymlaen, yn ddarostyngedig i'r rhanddirymiad a bennir yn is-baragraffau (3C) a (3D), mae rheoliad 14(1) i (4) yn gymwys i nwyddau perthnasol—

(a) yn is-baragraff (1) fel pe bai "hysbysu'r awdurdod cymwys mewn perthynas â Chymru am y dyddiad y disgwylir i'r llwyth gyrraedd Cymru" wedi ei roi yn lle''r geiriau o "drwy'r system" hyd at "safle rheoli ar y ffin" yn yr ail le y mae'n digwydd;

(b) yn is-baragraff (3) fel pe bai "drwy'r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol" wedi ei fewnosod ar ôl "hysbysiad";

(c) yn is-baragraff (4)—

(i) fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle'r geiriau agoriadol—

"(4) Yn achos trawslwytho cynhyrchion o bwynt mynediad yng Nghymru i bwynt mynediad neu safle rheolaethau'r ffin arall, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y llwyth hysbysu awdurdod cymwys y gyrchfan am—";

(ii) fel pe bai "y fan lle y bydd y trawslwythiad yn cael ei wirio, os oes angen hynny,";" wedi ei roi yn lle paragraff (b);

(ii) omit sub-paragraphs (2) to (3A);

(iii) in sub-paragraph (3C), for the words from "cynhyrchion" to "is-baragraff (3)" substitute "nwyddau perthnasol";

(iv) in sub-paragraph (4), omit paragraphs (a) and (b);

(c) in paragraph 6—

(i) in sub-paragraph (1), for paragraph (a) substitute—

"(a) o 30 Ebrill 2024 ymlaen—

(i) caniateir i unrhyw wiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol a wneir ar gynhyrchion ddigwydd naill ai yn y pwynt mynediad i Gymru neu yn y gyrchfan a nodir yn y ddogfen fewnforio sy'n cyd-fynd â'r llwyth;

(ii) yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig a Chyfarwyddebau diwygio 64/432/EEC a 93/119/EC a Rheoliad (CE) Rhif 1255/97, caniateir i reolaethau swyddogol mewn perthynas ag anifeiliaid byw ddigwydd yn y gyrchfan a nodir yn y ddogfen fewnforio sy'n cyd-fynd â'r anifeiliaid;

(aa) rhaid i'r gwiriadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) gael eu cynnal ar sail risg neu ar hap ac ar y gyfradd amlder briodol;

(ab) rhaid i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am lwyth o gynhyrchion sicrhau bod y llwyth yn cael ei gyflwyno ar gyfer rheolaethau swyddogol ar adeg resymol yn ystod y diwrnod gwaith;

(ac) caiff yr awdurdod cymwys, ar ôl cynnal gwiriad dogfennol ac unrhyw wiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol angenrheidiol ar y llwyth, ddyroddi DMIG sy'n caniatáu mynediad;

(ad) pan nad oes gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â'r llwyth, caiff yr awdurdod cymwys ddyroddi DMIG pan fo mewnforio'r llwyth wedi ei awdurdodi yn unol â'r weithdrefn a bennir yn rheoliad 15(5) i (7);";

(ii) in sub-paragraph (3), after the opening words, insert—

"(za) mae i "cyfradd amlder briodol" yr ystyr a roddir i "appropriate frequency rate" gan baragraff 2 o Atodiad 6 i'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;";

(d) in paragraph 7—

(i) the existing text is renumbered as sub-paragraph (1);

(ii) in the renumbered sub-paragraph (1), after "nwyddau perthnasol" insert "sy'n dod o drydedd wlad berthnasol";

(iii) at the end, insert—

"(2) Caiff yr awdurdod gorfodi ymafael mewn unrhyw lwyth sy'n cael ei symud o bwynt mynediad yng Nghymru heb DMIG neu heb awdurdod yr awdurdod cymwys.

(3) Caiff yr awdurdod gorfodi ymafael mewn unrhyw lwyth sy'n cael ei gludo o bwynt mynediad yng Nghymru i gyrchfan ac eithrio'r gyrchfan a bennir yn y DMIG.";

(e) for paragraph 8, substitute—

"**8.**—(1) Mae rheoliad 20 yn gymwys fel pe bai—

(a) y canlynol wedi ei roi yn lle paragraff (1)—

"(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys, yn ddarostyngedig i baragraff (1A), mewn perthynas ag unrhyw lwyth o gynnyrch os bydd unrhyw wiriadau a gynhelir yn dangos nad yw'r llwyth yn cydymffurfio â'r canlynol—

(a) gofynion y Rheoliadau hyn, fel y maent yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau trosiannol a bennir yn Atodlen 5; neu

(b) y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

(1A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan na chydymffurfir â'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1); a

(b) pan fo'r milfeddyg swyddogol neu'r arolygydd pysgod swyddogol (fel y bo'n briodol) yn ystyried bod y diffyg cydymffurfio yn fân

a thechnegol ac nad yw'n peri risg i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, nac i'r amgylchedd.

(1B) Pan fo paragraff (1A) yn gymwys, mae paragraffau (2) a (3) yn gymwys fel pe bai "caniateir" wedi ei roi yn lle "rhaid".";".